**Teitl y Swydd:** Swyddog Datblygu Gwent

**Math o gontract:** Swydd llawn amser, cytundeb tymor-penodol.
Cytundeb i ddechrau Medi 2019 am 12 mis Y nod yw parhau gyda'r swydd ond mae hyn yn ddibynnol ar gyllid

**Oriau:** 35 awr yr wythnos ( yn cynnwys oriau anghymdeithasol - nos a phenwythnosau)

**Graddfa:** Graddfa 7: £25.669 (Pwynt 1) - £29.757 (Pwynt 6)

**Lleoliad:** Swyddfa'r Urdd, Pontypwl

**Amdanom ni**

Mae'r Urdd yn fudiad sy'n parhau i dyfu ac arloesi, ac yn un o'r cyflogwyr mwyaf sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg. Fe sefydlwyd yn 1922, ac erbyn heddiw cyflogir dros 300 o staff, bron 55,000 o aelodau, 10,000 o wirfoddolwyr a throsiant o £10m. Byddwn yn dathlu ein pen-blwydd yn 100 yn 2022 gan weithio gydag ein haelodau a'n gwirfoddolwyr ynghyd ac amryw o bartneriaid sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, S4C, BBC, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Stonewall Cymru, Chwaraeon Cymru, Ysgolion a Cholegau Cymru.

**Y swydd**

Mae gennym gyfle cyffrous i berson brwdfrydig ymuno â'r tîm Ieuenctid a Chymunedol fel Swyddog Datblygu yn Rhanbarth Gwent. Bydd eich dyletswyddau amrywiol a diddorol yn cynnwys y gwaith trefnu a pharatoi angenrheidiol ar gyfer eisteddfodau, gweithgareddau i blant a phobl ifanc, chwaraeon a hamdden eang yr Urdd i aelodau Byddwch hefyd yn trefnu ac yn mynychu cyrsiau preswyl, ac yn ymweld ag ysgolion, ac adrannau.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Dai Bryer 07976 00 33 21 neu daibryer@urdd.org
.
Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

**Dyddiad Cau**: Gorffennaf 3 2019

**Dyddiad Cyfweliad**: Gorffennaf 10 2019

Ffurflen Gais ar gael o wefan yr Urdd – www.urdd.cymru/

| DISGRIFIAD SWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Datblygu Gwent | **Lleoliad:** | Swyddfa'r Urdd, Pontypwl |
| **Adran:** | Ieuenctid a Chymuned | **Yn gyfrifol am:** | **-** |
| **Yn atebol i :** | Arweinydd Ieuenctid a Gwersylloedd Gwent | **Gradd:** | Graddfa 7 (£25,669 Pwynt 1 - £29,757 Pwynt 6) |

**Prif bwrpas y swydd:**
Bydd eich dyletswyddau amrywiol a diddorol yn cynnwys y gwaith trefnu a pharatoi angenrheidiol ar gyfer eisteddfodau, gweithgareddau i blant a phobl ifanc, chwaraeon a hamdden eang yr Urdd. Byddwch hefyd yn trefnu ac yn mynychu ambell gwrs preswyl, ac yn ymweld ag ysgolion, ac adrannau.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

1. Bod yn gyfrifol am ddatblygu a chydgysylltu gwaith yr Urdd ar gyfer aelodau Rhanbarth Gwent.
2. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau trefniadau Eisteddfodol a chwaraeon rhanbarthol, yn ogystal â chynorthwyo gyda teithiau i'r gwersylloedd. Gosodir targedau ar gyfer hyn yn flynyddol.
3. Cynnig cefnogaeth i ganghennau presennol a sefydlu canghennau a chlybiau newydd, gan gynnwys gweithgaredd amser gwyliau ysgol.
4. Cynyddu aelodaeth y rhanbarth.
5. Cefnogi cynlluniau hybu gweithgaredd Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
6. Cyflawni prosiectau penodol yn y rhanbarth. Gall y prosiectau amrywio yn flynyddol, yn ddibynnol ar bartneriaethau ariannu sy'n gwneud parhad y swydd yn bosibl.
7. Cydweithio gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys Fforymau Iaith a'r Mentrau Iaith lleol.
8. Sicrhau rhediad gweinyddol esmwyth.
9. Cynorthwyo gyda threfniadau canolog a chenedlaethol yr Urdd megis Eisteddfod, Gwersylloedd a Chyrsiau, Chwaraeon.
10. Cofnodi a chasglu ystadegau am weithgaredd y rhanbarth.
11. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio tuag at amcanion cynllun corfforaethol Urdd Gobaith Cymru.
12. Sicrhau bod targed ariannol y rhanbarth yn cael ei gyrraedd.
13. Cydweithio gyda staff a gwirfoddolwyr y rhanbarth.

**Hanfodol:**

- Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu cryf.
- Rhaid meddu ar gymeriad addas i ddelio gydag ystod eang iawn o bobl.
- Rhaid bod yn hyderus i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc gan adnabod ac ysgogi gwirfoddolwyr/arweinwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau.
- Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r Iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.
- Rhaid bod a thrwydded yrru lan a defnydd o gar ar gyfer y swydd gan fod teithio yn rhan annatod o'r dyletswyddau.

**Dymunol:**

- Gallu gweithio ar liwt eu hunain a hefyd cydweithio fel aelod o dîm.
- Profiad o weithio yn uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc - boed yn gyflogedig neu yn wirfoddol.
- Cymhwyster Gwaith Ieuenctid Lefel 2/3 – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a Chymorth cyntaf – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd.
- Mynychu cwrs Asesu Risg ( Off-Site Safety) – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd.

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd ei dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb, gellir trafod hyn yn y cyfarfod tymhorol.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad:**

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym Mehefin 2019 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (**ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Datblygu Gwent |
| **Yn atebol i:** | Arweinydd Ieuenctid a Gwersylloedd Gwent |
| **Cyflog:** | Ar raddfa 7 Strwythur Cyflog yr Urdd £25,669 (Pwynt 1) - £29,757 (Pwynt 6) Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. |
| **Cytundeb:** | Cyfnod penodol – 12 mis yn gychwynnol gyda'r bwriad i droi yn barhaol, yn dibynnu ar gyllid allanol. |
| **Oriau gwaith:** | Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg. |
| **Lleoliad:** | Swyddfa'r Urdd, Pontypŵl |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| **Gwiriad GDG:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |